



CYLCH GORCHWYL TECHNOLEG IECHYD CYMRU (HTW)¹

Panel Arfarnu HTW

Dyddiad Dod i Rym	1 Mai 2021
Cymeradwywyd Gan	Panel Arfarnu
Dyddiad Adolygu	30 Ebrill 2022
Awdur Arweiniol	Cyfarwyddwr, Technoleg Iechyd Cymru
Fersiwn	V3.1

¹ Mae hon yn ddogfen fyw ac felly gall newid. Caiff ei hadolygu a'i diweddarau yn flynyddol, neu'n amlach os bydd angen.

1. DIBEN A CHYLCH GWAITH

Y Panel Arfarnu yw corff gwneud penderfyniadau HTW, sy'n cynhyrchu canllawiau seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â thechnolegau nad ydynt yn feddyginiaethau er mwyn llywio penderfyniadau ynglŷn â gweithredu a mabwysiadu yn GIG Cymru.

Mae gan y Panel Arfarnu swyddogaethau a ddirprwir iddo gan Grŵp Gweithredol HTW.

2. CWMPAS A DYLETSWYDDAU

Cwmpas y Panel:

- Ystyried yr achos o blaid mabwysiadu technolegau nad ydynt yn feddyginiaethau sydd yn cael eu hatgyfeirio gan Grŵp Asesu HTW.
- Gwneud argymhellion mewn dogfennau canllaw yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyhoeddwyd a mewnbwn arbenigwyr clinigol, cymdeithasol a llyeg.
- Cynghori ar gwmpas pynciau arfaethedig i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dyletswyddau Aelodau:

- Mynychu 75% neu ragor o gyfarfodydd y Panel Arfarnu, ac enwebu dirprwy ar gyfer unrhyw gyfarfod nad ydynt yn gallu mynd iddynt
- Darllen ac ystyried y papurau cyn y cyfarfod.
- Gweithredu fel arweinydd pwnc ar gyfer rhai eitemau penodol ar gais y Cadeirydd. Wrth wneud hynny, gweithio gyda thîm HTW i baratoi a chyflwyno tystiolaeth y pwnc yng nghyfarfodydd y Panel Arfarnu.
- Cadw at rwymedigaeth i ddatgan buddiannau perthnasol a chynnal cyfrinachedd y materion sydd yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Panel Arfarnu.
- Defnyddio eu harbenigedd proffesiynol a'u rhwydweithiau i amlygu technolegau iechyd i'r Grŵp Asesu sy'n debygol o gael goblygiadau sylweddol ar gyfer gofal yng Nghymru.
- Codi ymwybyddiaeth o HTW a'i rôl a'i gylch gwaith, gan hwyluso ymgysylltu â'u rhwydweithiau daearyddol a phroffesiynol cyfansoddol a chymunedau clinigol.
- Lledaenu canlyniadau gan HTW ymhlith grwpiau cyfansoddol a rhwydweithiau proffesiynol.

3. SWYDDOGAETHAU DIRPRWYEDIG AC AWDURDOD

Mae'r Panel Arfarnu yn cael ei awdurdodi gan Grŵp Gweithredol HTW i adolygu ac ystyried gweithgarwch o fewn ei Gylch Gorchwyl. Mae'n cael ei awdurdodi i gael yr wybodaeth sydd ei angen arno gan Gadeirydd Grŵp Asesu HTW er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau.

Ni fydd sefydlu'r Panel Arfarnu yn gwrthdaro, dyblygu nac yn cymryd lle rôl a chyfrifoldebau Grŵp Asesu HTW.

Bydd y Panel yn cyflawni swyddogaethau sydd yn cael eu dirprwyo iddo gan Grŵp Gweithredol HTW.

Efallai y bydd y Panel yn gofyn i unrhyw rai neu i bawb sydd fel arfer yn mynychu ond sydd ddim yn aelodau, i adael er mwyn hwyluso trafodaeth agored a di flewyn ar dafod am faterion penodol.

Hefyd, gall HTW alw ynghyd gweithgorau cyfnod byr er mwyn mynd i'r afael â materion penodol, ac i

wneud argymhellion i gael eu cymeradwyo gan HTW.

4. AELODAETH

Cadeirydd HTW a Chyfarwyddwr HTW fydd yn penderfynu ar aelodaeth y Panel Arfarnu.

Os nad ydy aelod yn gallu bod yn bresennol, gellir anfon sylwadau ymlaen llaw drwy e-bost a / neu ddirprwy a enwir, a bydd rhywun sydd ag arbenigedd tebyg yn cael ei anfon yn eu lle.

Mae aelodau sy'n pleidleisio yn cynnwys

- Gweithiwr iechyd proffesiynol/clinigol annibynnol (Cadeirydd)
- Gweithiwr iechyd proffesiynol/clinigol annibynnol (Is-gadeirydd)
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Meddygol
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwr Cynllunio
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddonwyr Gofal Iechyd
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwr Nyrsio
- Cynrychiolwyr Rhwydwaith Glinigol ac Uwch Glinigydd ar draws ystod o feysydd arbenigol
- Cynrychiolydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)
- Cynrychiolydd Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)/ Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
- Cynrychiolydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Cynrychiolydd Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)
- Cynrychiolydd Canolfan(nau) Academaidd
- Cynrychiolydd gofal cymdeithasol (n=2)
- Partneriaid Cyhoeddus (n=2)
- Cynrychiolydd gofal iechyd seiliedig ar werthoedd
- Cynrychiolwyr diwydiant (n=2; ABHI a MediWales)
- Cynrychiolydd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol
- Dylai aelodaeth geisio cynnwys cynrychiolwyr sy'n cynnig lledaeniad daearyddol ar draws Gogledd, Gorllewin a De Cymru, ac ar draws yr holl Fyrddau Iechyd Lleol.

Mae aelodaeth bresennol Panel Arfarnu HTW i'w weld ar wefan HTW.

Bydd aelodau eraill yn cael eu cyfethol yn ôl y galw, yn ôl disgrisiwn y Grŵp Gweithredol.

Yn bresennol

Drwy rinwedd y swyddi a ddelir, mae aelodau Grŵp Gweithredol HTW yn gymwys i fynychu cyfarfodydd Panel Arfarnu HTW.

Gwahoddir Ysgrifenyddiaeth a staff gwyddonol HTW i fynychu cyfarfodydd er mwyn mynd i'r afael ag

eitemau busnes penodol, neu efallai y byddent yn dymuno mynychu fel arsylwyr. Yn yr amgylchiadau hyn, gall yr unigolion dan sylw gymryd rhan mewn trafodaeth ar yr eitem fusnes benodol y gwahoddwyd hwy i fynychu'r cyfarfod ar ei chyfer, ac unrhyw eitem fusnes arall lle bydd y Cadeirydd yn benodol yn gwahodd eu cyfraniad.

Efallai y bydd sefydliadau sydd ddim wedi cael eu cynrychioli'n barod ar Banel Arfarnu HTW yn cael eu gwahodd, sydd â diddordeb parhaus perthnasol yng ngwaith HTW, i fynychu a chymryd rhan yn y cyfarfodydd gyda chytundeb y Cadeirydd e.e. i ddarparu mewnbyn arbenigol.

Aelodau heb hawliau pleidleisio

- Cyfarwyddwr HTW a Chadeirydd Grŵp Asesu HTW
- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
- Aelodau'r Grŵp Gweithredol
- Staff Ysgrifenyddiaeth a gwyddonol HTW
- Aelodau arsylwi - er enghraifft aelodau newydd o staff - gallant gael eu gwahodd i arsylwi cyfarfod

5. PENODI AELODAU A CHEFNOGAETH

Bydd aelodau'n cael eu penodi i ddechrau am isafswm o 18 mis, cyn y bydd eu rôl ar y Panel yn cael ei hadolygu'n ffurfiol. Yn ystod y cyfnod hwn, gall aelod ymddiswyddo neu gael ei dynnu oddi ar y Panel gan Grŵp Gweithredol HTW. Unwaith ei fod wedi'i sefydlu, bydd aelodau newydd yn cael eu hychwanegu'n raddol. Bydd hyd arferol penodiadau yn dair blynedd ac yna, byddant yn cael eu hadolygu gydag uchafswm o un tymor adnewyddu o leiaf.

Bydd aelodau yn cael eu penodi ar sail eu diddordebau, profiad ac arbenigedd unigol ac fel cynrychiolwyr eu rhwydweithiau proffesiynol neu leyg. Bydd pob bwrdd GIG daearyddol yn cael eu gwahodd i enwebu aelod hefyd.

Gall aelodau gymryd rôl ddeuol o fewn yr aelodaeth os gallant gynnig arbenigedd mewn gwahanol feysydd e.e. cynrychioli bwrdd penodol a grŵp proffesiynol.

Disgwylir i bob aelod fynychu o leiaf 75% o'r cyfarfodydd bob blwyddyn. Os na allant fynychu dylid anfon dirprwy yn eu lle.

Bydd pob cyfleuster rhesymol yn cael eu darparu i aelodau er mwyn sicrhau bod ganddynt y cyfle i gymryd rhan yn llawn ac yn deg ym musnes HTW, yn cynnwys cyfleusterau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir.

Mae'n rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod holl aelodau Panel Arfarnu HTW yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn i'r prosesau llunio cyngor. Bydd y Cadeirydd yn arwain ac yn cyfarwyddo Panel Arfarnu HTW, gan annog pob aelod i gyfrannu'n llawn i drafodaethau a sicrhau bod yr holl faterion priodol yn cael sylw mewn modd amserol.

Bydd cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol yn cael eu darparu i aelodau newydd a phresennol fel y bo'n briodol.

6. CYFARFODYDD Y PANEL ARFARNU

Cworwm

Mae'n rhaid i o leiaf 50% + 1 o'r aelodau (neu ddirprwyon enwebedig) fod yn bresennol i sicrhau cworwm y Grŵp.

Bydd cyfarfodydd sydd ddim yn ffurfio cworwm yn cael eu canslo.

Dylai aelodau'r Panel Arfarnu hysbysu Ysgrifenyddiaeth HTW ar unwaith os byddant yn dod yn ymwybodol na fyddant yn gallu mynychu cyfarfod y Panel mwyach ar y diwrnod a nodir, a threfnu i'w dirprwy enwebedig fynychu yn eu lle.

Amllder a fformat cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal hyd at ddeuddeg gwaith y flwyddyn (fel arfer ar ddydd Mawrth olaf y mis dan sylw) neu fel arall, fel y bydd Cadeirydd y Panel Arfarnu yn teimlo sy'n angenrheidiol. Bydd amserlen flynyddol o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn galendr ddilynol yn cael ei llunio bob mis Awst.

Gall y Cadeirydd, neu Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd, alw cyfarfodydd arbennig o Banel Arfarnu HTW os bydd angen.

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir yn bennaf, ond efallai y bydd nifer o sesiynau wyneb i wyneb yn cael eu trefnu bob blwyddyn fel y bo'n briodol.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, a bydd yr agenda a'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan HTW.

7. PERTHYNAS AC ATEBOLRWYDD

Mae'r Panel Arfarnu yn uniongyrchol atebol i'r Grŵp Gweithredol am ei berfformiad o ran gweithredu'r swyddogaethau sydd yn cael eu gosod yn y cylch gorchwyl hwn.

Bydd y Panel yn cadw at safonau, blaenoriaethau a gofynion corfforaethol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, e.e. cydraddoldeb a hawliau dynol, pan fydd yn cynnal ei fusnes.

Bydd yn ofynnol i Aelodau ddychwelyd / adolygu Datganiadau o ddiddordeb bob blwyddyn, a rhoi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth am unrhyw newidiadau sylweddol o fewn y flwyddyn. Bydd yn ofynnol hefyd i Aelodau lofnodi cytundeb cyfrinachedd, a thrin yr holl bapurau cyfarfod yn gyfrinachol oni bai eu bod nhw wedi cael eu cyhoeddi gan HTW.

8. TREFN CYFARFODYDD

Bydd Swyddfa Rhaglen HTW yn penderfynu pa eitemau fydd yn ymddangos ar yr agenda mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr HTW a Chadeirydd y Panel Arfarnu.

Gall aelodau Panel Arfarnu HTW gyflwyno eitemau i'w hystyried hefyd. Dylai unrhyw aelod sy'n dymuno i eitem gael ei hystyried ar gyfer agenda hysbysu'r Swyddfa Rhaglen (healthtechnology@wales.nhs.uk) cyn gynted â phosibl.

Bydd yr agenda a'r papurau yn cael eu dosbarthu i aelodau Panel Arfarnu HTW o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd. Bydd y drefn busnes yn dilyn yr agenda fel arfer, ond y Cadeirydd fydd yn cael y gair olaf am hyn. Gellir derbyn papurau a gyflwynir mewn cyfarfod gyda chytundeb penodol y Cadeirydd, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.

Ni fydd unrhyw fusnes arall yn cael ei drafod yn y cyfarfod, ond bai y caniateir hynny gan y Cadeirydd.

Bydd eitemau fydd heb eu cwblhau yn cael eu cario ymlaen i'r cyfarfod nesaf neu eu cwblhau'n electronig.

Bydd yr agenda a'r papurau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan HTW o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cynnal y cyfarfod.

Bydd y Swyddfa Rhaglen yn llunio cofnodion o'r cyfarfod ar ran Cyfarwyddwr HTW - mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd. Bydd enwau'r aelodau a oedd yn bresennol yn cael eu cynnwys yn y cofnodion.

Bydd y cofnodion drafft yn cael eu dosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod nesaf. Gan nad yw'r cofnodion drafft yn cael eu hystyried yn ffurfiol ar agenda Panel Arfarnu HTW, bydd aelodau'n cael eu gwahodd i adolygu, gwneud sylwadau a chymeradwyo'r cofnodion drwy e-bost. Unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo, bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan HTW.

9. PLEIDLEISIO / GWNEUD PENDERFYNIADAU

Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy fwyafrif syml yr aelodau sy'n pleidleisio. Fel arfer, ceir mwyafrif drwy gonsensws heb bleidlais ffurfiol. Os bydd angen, bydd pleidlais ffurfiol yn cael ei chynnal ac os bydd y pleidleisiau'n gyfartal, y Cadeirydd fydd â'r bleidlais fwrw.

Dim ond aelodau llawn o Banel Arfarnu HTW fydd â hawl i bleidleisio, a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy fwyafrif syml o'r aelodau hynny sy'n bresennol mewn cyfarfod sydd â chworwm. Nid oes gan y rheiny sy'n bresennol, aelodau sy'n arsylwi ac Ysgrifenyddiaeth HTW unrhyw hawl i bleidleisio.

Bydd gan Aelod yr hawl i'w anghytundeb gael ei gofnodi yn y cofnodion.

10. ADRODD A THREFNIADAU SICRWYDD

Bydd y Cadeirydd yn amlygu/uwchgyfeirio materion priodol fydd yn cael eu trafod pan fydd angen, i Grŵp Gweithredol HTW.

11. CADEIRYDD YN GWEITHREDU AR FATERION BRYD

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd amgylchiadau lle bydd angen gwneud penderfyniadau rhwng cyfarfodydd sydd wedi'u hamserlennu. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd y Cadeirydd, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr HTW, yn delio â'r mater ar ran y Grŵp, ar ôl ymgynghori'n gyntaf gyda'r Swyddog Atebol. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwr HTW sicrhau bod unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei gofnodi'n ffurfiol a'i adrodd wrth y cyfarfod nesaf ar gyfer ei ystyried a'i gadarnhau.

Ni all gweithredu bryd gan y Cadeirydd gael ei wneud os oes gan y Cadeirydd fudd personol neu fusnes yn y mater bryd dan sylw.

12. ADOLYGIAD

Bydd y cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Panel Arfarnu, gan gyfeirio at y Grŵp Gweithredol.